

## CYNGOR CYMUNED RHOSCOLYN

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00pm. Nos Iau, 13 Chwefror 2025**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Cyng. Barry Thomas

**Cynghorwyr:** Susan Hanbury, Geraint Owen, Meilir Parry, William Roberts, Evan Wyn Robertson a Tony Thompson.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen - Clerc / SAC a Keith Roberts (Cynghorydd Sir)

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Elwyn Owen.
2. **Datganiad o Ddiddordeb:** – Cyng. M. Parry yn datgan diddordeb rhagfarnol - eitem 5.3 Cais cynllunio Hafod y Plas. Gadawodd yr ystafell heb gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth.
3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol:** derbyniwyd cofnodion 9 Ionawr 2025 fel rhai cywir (cynnig. Cyng. Evan Wyn Robertson, eilio. Cyng. T. Thompson).
4. **Materion yn codi o'r cofnodion**
  - 4.1 Yn dilyn trafodaeth ar rinweddau meinciau plastig wedi'u hailgylchu oedd ar gael gan dri gwahanol gwmni, cytunwyd i brynu sedd gyda choesau wedi'u mowldio gan Earth Anchors Ltd. Pris gan gynnwys gosodiadau a chludiant £468 ynghyd â TAW.
  - 4.2 Gordyfiant Pontrhydybont – adroddodd y clerc fod cynrychiolydd o Scottish Power wedi ymweld â'r safle gyferbyn ag Ystâd Morawelon i arolygu effaith coed ar y llinellau pŵer.
5. **Ceisiadau Cynllunio**
  - 5.1 HHP/2025/11 Llais Y Môr, Pontrhydybont  
Cais llawn ar gyfer dymchwel y garej a'r ystafell haul presennol ynghyd a addasu ag ehangu - Dim gwrthwynebiad.
  - 5.2 HHP /2025/5 Pen Y Graig, Rhoscolyn  
Cais llawn ar gyfer dymchwel yr anecs presennol a chodi anecs newydd yn ogystal â gwaith cysylltiedig - dim gwrthwynebiad ar yr amod nad oedd yn mynd i gael ei ddefnyddio fel llety gwyliau ar wahân.
  - 5.3 HHP/2025/3 Hafod Y Plas, Pontrhydybont  
Cais llawn ar gyfer ehangu ac addasu - Dim gwrthwynebiad.  
Gadawodd Cyng. Parry'r ystafell heb gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth.
  - 5.4 Penderfyniad: HHP/2024/299 Rhyd y Bont, Pontrhydybont – Caniatâd.
  - 5.5 Penderfyniad apêl FPL/2024/95 Cil y Gwynt, - Gwrthodwyd.
6. **Gohebiaeth** (er gwybodaeth)
  - 6.1 Hyfforddiant un Llais Cymru

Arwyddwyd / Signed:  
Cadeirydd / Chairman :

Dyddiad:  
Date:

- 6.2 Digwyddiad ar y Cyd Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru – Dydd Iau 27 Mawrth o 10:00am tan 1:30 pm, o bell trwy Zoom
- 6.3 Ymgysylltiad Ôl-16: Roedd yr aelodau o'r farn na ddylai pobl ifanc ôl-16 oed orfod teithio oddi ar yr ynys i gael addysg bellach. Y nod ddylai fod gwneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd eisoes ar gael, gwarchod yr iaith, ein treftadaeth a darparu cyfleoedd a swyddi yn lleol
- 6.4 Gwneud Synnwyr o'r Jargon – ddogfen a ddarparwyd gan Un Llais Cymru

## 7. Materion Ariannol

Cyflwynwyd: adroddiad ariannol y SAC am y cyfnod o 1.1.2025 i 31.1. 2025) ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

- 7.1 Taliadau: cytunwyd i dalu'r rhain:

Archwiliad Allanol	£200	Lwfans Cyngorwr	£416
--------------------	------	-----------------	------

Cytunwyd y byddai'r clerch yn talu unrhyw anfoneb a dderbyniwyd am wariant a gytunwyd arno yn flaenorol

- 7.2 Lwfans Cyngorwr - Atgoffwyd Aelodau y byddai'n rhaid iddynt gadarnhau'n ysgrifenedig eu bod yn gweithio gartref ar ddyletswyddau swyddogol fel Cyngorydd ac nad ydynt eisoes yn hawlio lwfans treth ar gyfer costau gweithio gartref yn erbyn ffynhonnell incwm arall cyn derbyn taliad di-dreth. Dylai unrhyw un nad oedd am dderbyn y lwfans anfon cadarnhad ysgrifenedig ymlaen at y clerch.
- 7.3 Rhoddion – Cytunwyd i wneud taliadau fel a ganlyn:

Y Rhwyd (tal pellach)	£300	Deddf Llywodraeth Leol 1972 ,S 145
Hosbis Dewi Sant	£250	Deddf Llywodraeth Leol 1972, S137

## 8. Adroddiadau Cyngorwr

- 8.1 Cyng. Susan Hanbury - dywedodd y fod y lloches fws ar y gyffordd cyferbyn â'r Gegin Fach ym Mhontrhydybont wedi'i ddifrodi – gofynnwyd i'r clerch yn cael pris am ei thrin.
- 8.2 Cyng. Barry Thomas - awgrymodd y dylai phob Aelod greu cyfeiriad e-bost ar wahân ar gyfer gohebiaeth y Cyngor Cymuned. Cytunodd yr aelodau i edrych ar hyn.

## 9. Cyfarfod nesaf 27 Mawrth 2025.

## **RHOSCOLYN COMMUNITY COUNCIL**

### **Council Meeting Minutes - 7.00pm. Thursday, 13 February 2025**

**Present:** Chairman: Councillor Barry Thomas

**Councillors:** Susan Hanbury, Geraint Owen, Meilir Parry, William Roberts, Evan Wyn Robertson a Tony Thompson.

Also present: Mai Owen – Clerk / RFO and Keith Roberts (County Councillor).

- 1. Apologies: Councillor** Elwyn Owen.
- 2. Declaration of Interest:** – Cllr. M. Parry declared a prejudicial interest in item 5.3 Planning application Hafod y Plas. He left the meeting and took no part in the discussion.
- 3. Minutes of previous meeting:** the minutes of 9 January 2025 were accepted as correct (prop. Cllr. T. Thompson, sec. Cllr. G. Owen).
- 4. Matters arising from the minutes**
  - 4.1 Following discussion on the merits of recycled plastic benches available from three separate companies it was agreed to purchase a seat with moulded legs from Earth Anchors Ltd. cost including fixings and delivery £468 plus VAT.
  - 4.2 Overgrowth Pontrhydybont – the clerk reported that a representative from Scottish Power had visited the site opposite Morawelon Estate to survey the impact of trees on the power lines.
- 5. Planning Matters**
  - 5.1 HHP/2025/11 Llais Y Mor, Pontrhydybont  
Full application for the demolition of the existing garage and conservatory together with alterations and extensions – no objections.
  - 5.2 HHP /2025/5 Pen Y Graig, Rhoscolyn  
Full application for the demolition of the existing annexe and the erection of a replacement annexe together with associated works – no objections provided that it was not going to be used as a separate holiday let.
  - 5.3 HHP/2025/3 Hafod Y Plas, Pontrhydybont  
Full application for alterations and extensions no objections.
  - 5.4 HHP/2024/299 Rhyd y Bont, Pontrhydybont Granted.
  - 5.5 Appeal decision FPL/2024/95 Cil y Gwynt, - refused.
- 6. Correspondence – submitted and noted:**

Arwyddwyd / Signed:  
Cadeirydd / Chairman :

Dyddiad:  
Date:

- 6.1 One Voice Wales Training
- 6.2 Joint event One Voice Wales and Planning Aid Wales – Thursday 27 March from 10:00am to 1:30pm, remote via Zoom
- 6.3 Post 16 Engagement – Members were of the view that post 16yr olds should not have to travel off the island for further education. The aim should be to make full use of the resources already available, preserve the language, our heritage and provide opportunities and jobs locally.
- 6.4 Unjumbling the Jargon – document produced by One Voice Wales.

## 7. Financial Matters

Submitted: The RFO's financial report for the period from 1.1.2025 to 31.1.2025 together with bank reconciliations, statements and copies of the accounts.

### 7.1 Payments – agreed as follows:

External Audit	£200	Members Allowance	£416
----------------	------	-------------------	------

It was agreed to pay any invoice received for previously agreed expenditure.

- 7.2 Members Allowance - Members were reminded that in order to receive payment they would have to confirm in writing that they work from home on official duties as a Councillor and that they are not already claiming a tax allowance for home working expenses against another source of income. Anyone who did not wish to receive the allowance should forward written confirmation to the clerk.
- 7.3 Donations - it was agreed to make payments as follows:

Y Rhwyd	£300	Local Government Act 1972, s. 145
St David's Hospice	£250	Local Government Act 1972, s.137

## 8. Councillor Reports

- 8.1 Cllr. Susan Hanbury reported that the bus shelter on the junction opposite Y Gegin Fach in Pontrhydybont had been damaged - the clerk would obtain a price for the repair.
- 8.2 Cllr. Barry Thomas suggested that each Member create a separate email address for Community Council correspondence. Members agreed to look at this.

## 9. Next Meeting - 27 March 2025